# CWESTIYNAU CYFFREDIN

# Y GRONFA ARIANNOL WRTH GEFN

*Fersiwn: Medi 2024*

# Y Gronfa Ariannol Wrth Gefn ar gyfer Dysgwyr

## Cwestiynau Cyffredin

Cliciwch ar y cwestiwn y mae arnoch angen yr ateb ar ei gyfer, a bydd yn mynd â chi yn syth at yr ateb. Neu, mae croeso i chi sgrolio trwy'r ddogfen.


**Pwy sy'n gymwys i hawlio o'r gronfa?** ..... 2

**Nid wyf yn siŵr a wyf yn gymwys. Beth y dylwn ei wneud?** ..... 2

**A allaf ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i Ddysgwyr i helpu gyda fy ffioedd?** ..... 3

**I ba ddiben y gellir defnyddio'r gronfa?** ..... 3

**Sut yr wyf yn gwneud cais?** ..... 3

**Pryd y dylwn gyflwyno fy nghais?** ..... 3

**Pam mai dim ond ar ddiwedd pob tymor y gallaf hawlio, ac nid ar y dechrau neu yn ystod y tymor?** ..... 3

**Pam y mae'n rhaid i mi lenwi'r hawliad bob tymor?** ..... 4

**Pwy yw darparwr fy nghwrs?** ..... 4

**Beth yw fy Rhif Cofrestru?** ..... 4

**Beth yw MALIC? A oes angen i mi ateb y cwestiwn hwn?** ..... 4

**Pam y mae'n rhaid i mi lenwi'r adran er mwyn cadarnhau "y basai'n anodd cael mynediad i astudiaethau heb gymorth gan y Gronfa achos fod ystyriaethau ariannol yn rhwystr, e.e. dych chi ar incwm isel."?** ..... 5

**Pa dystiolaeth y mae arnaf ei hangen?** ..... 5

**Nid oes gennyf unrhyw dderbynebau. Beth y dylwn ei wneud?** ..... 6

**A oes yna uchafswm y gallaf ei hawlio?** ..... 6

**A allaf wneud cais am gostau teithio ymlaen llaw?** ..... 6

**I bwy y dylwn ofyn am gyngor ar gyfer llenwi'r ffurflen?** ..... 7

**Pwy sy'n ariannu hyn?** ..... 7

**Unrhyw gwestiynau eraill?** ..... 7

## Pwy sy'n gymwys i hawlio o'r gronfa?

Mae'r gronfa ar gael ar gyfer dysgwyr sydd yn cwrdd â'r meini prawf canlynol:

- Wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gydag un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol,
- Yn 16 mlwydd oed neu hŷn ar 31 Awst 2024
- Eich bod yn breswylydd sefydlog, cyfreithiol, yn y DU, a hynny ers o leiaf 3 blynedd; neu yn cwrdd â'r amodau preswylio yn y Canllaw Cymhwysedd Dysgwyr ar gyfer cyllid ôl-16 (manylion yn y polisi ar y wefan).
- Yn cadarnhau y basai'n anodd cael mynediad i'ch astudiaethau heb gymorth gan y Gronfa achos fod ystyriaethau ariannol yn rhwystr, e.e. dych chi ar incwm isel.

Rhoddir blaenoriaeth i ddysgwr sydd:

- Yn rhiant ag anghenion gofal plant (plentyn/plant dan 18 oed)
- Yn rhiant sengl ag anghenion gofal plant (plentyn/plant dan 18 oed)
- Yn ofalwr; wedi bod mewn gofal, ar brawf, neu yr ystyrir ei fod, fel arall, mewn perygl
- Ar incwm isel, gan gynnwys dysgwyr nad ydynt yn gymwys ar gyfer cymorth incwm, neu fyfyrwyr o deuluoedd incwm isel
- Yn breswylydd mewn ardal sydd wedi'i rancio'n 190 neu'n is yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Yn wynebu anawsterau ariannol penodol gan na fydd ei deulu yn cael elfen plant y credyd cynhwysol o'r 1af o Fedi sy'n dilyn eu pen-blwydd yn 19 oed

Fodd bynnag, os nad yw'r unigolyn yn un o'r grwpiau blaenoriaeth uchod, nid yw hyn yn golygu y bydd yn aflwyddiannus yn awtomatig.

## Nid wyf yn siŵr a wyf yn gymwys. Beth y dylwn ei wneud?

Mae'r polisi yn amlinellu cymhwyster. Rhaid i chi gadarnhau bod y canlynol yn berthnasol i chi:

- Eich bod wedi cofrestru ar gwrs Dysgu Cymraeg gydag un o Ddarparwyr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol,
- Eich bod yn 16 mlwydd oed neu hŷn ar 31 Awst 2024
- Eich bod yn breswylydd sefydlog, cyfreithiol, yn y DU, a hynny ers o leiaf 3 blynedd; neu yn cwrdd â'r amodau preswylio yn y Canllaw Cymhwysedd Dysgwyr ar gyfer cyllid ôl-16 (manylion yn y polisi ar y wefan).
- Eich bod yn gallu cadarnhau y basai'n anodd cael mynediad i'ch astudiaethau heb gymorth gan y Gronfa achos fod ystyriaethau ariannol yn rhwystr, e.e. dych chi ar incwm isel.

Os ydych chi'n dal yn ansicr, siaradwch â'ch tiwtor neu'ch darparwr, neu cysylltwch â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol drwy e-bostio cyllid@dysgucymraeg.cymru.

## A allaf ddefnyddio'r Gronfa Ariannol Wrth Gefn i Ddysgwyr i helpu gyda fy ffioedd?

Na allwch. Yn anffodus, mae'n amod gan Lywodraeth Cymru na ellir defnyddio'r gronfa hon i helpu gyda ffioedd cyrsiau.

Efallai yr hoffech ofyn i'ch darparwr a yw'n cynnig unrhyw gonsesiynau o ran ffioedd y cyrsiau, y gallech fod yn gymwys ar eu cyfer.

## I ba ddiben y gellir defnyddio'r gronfa?

Gellir ei defnyddio ar gyfer y canlynol, ar yr amod bod y dystiolaeth gywir (fel y nodir yn y polisi) yn cael ei chyflwyno gyda'r hawliad:

- Gofal plant
- Ffi Arholiad
- Adnoddau hanfodol i'r cwrs e.e. llyfrau, offer technegol
- Costau Teithio – Milltiroedd
- Costau Teithio – Bws/Trên
- Costau Parcio
- Anabledd

<u>Ni all</u> y gronfa gael ei defnyddio ar gyfer ffioedd cyrsiau.

## Sut yr wyf yn gwneud cais?

Yn syml, llenwch y Ffurflen Gais sydd ar ein gwefan, a'i chyflwyno erbyn y dyddiad cau a nodir yn y polisi.

Gallwch anfon eich cais yn electronig neu drwy'r post – pa un bynnag sydd hawsaf i chi.

## Pryd y dylwn gyflwyno fy nghais?

Dylai eich cais gael ei gwblhau erbyn diwedd pob tymor, ac wedyn ei gyflwyno erbyn y dyddiad cau a nodir yn y polisi, y gellir ei weld ar ein gwefan.

## Pam mai dim ond ar ddiwedd pob tymor y gallaf hawlio, ac nid ar y dechrau neu yn ystod y tymor?

- Er mwyn sicrhau tegwch
    - Gan fod y gronfa yn gyfyngedig, mae casglu pob hawliad ar yr un pryd yn golygu y bydd y rheiny sydd â'r flaenoriaeth uchaf yn cael arian y gronfa gyntaf, yn hytrach na'i fod yn wasanaeth sy'n seiliedig ar y cyntaf i'r felin gaiff falu.

- Er mwyn sicrhau y gellir darparu tystiolaeth
    - Gan y bydd arnoch angen tystiolaeth i gefnogi'ch cais, mae'n debygol na fydd y dystiolaeth ar gael yn hawdd ar ddechrau eich tymor.
    - Hefyd, gan mai dim ond ar gyfer y gwersi hynny yr ydych chi'n eu mynychu y dylech hawlio costau teithio, ni fyddwch yn gallu gwarantu hyn ar ddechrau pob tymor. Gall amgylchiadau newid, sy'n golygu bod nifer y gwersi yr ydych yn eu mynychu yn llai

na'r disgwyl. Gofynnwn i'ch darparwr gadarnhau'r presenoldeb yn y dosbarth, felly mae'n hanfodol bod y nifer cywir o wersi a fynychir yn cael ei nodi.

- Er mwyn osgoi dyblygu hawliadau posibl
    - Trwy gyflwyno hawliad am bob tymor, mae hyn hefyd yn amddiffyn yn erbyn cyfnodau hawlio sy'n gorgyffwrdd, ynghyd â dryswch posibl.

## Pam y mae'n rhaid i mi lenwi'r hawliad bob tymor?

Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu arian i ni bob tymor. Mae'n golygu bod eich ad-daliad yn cael ei wneud ar ddiwedd pob tymor, yn hytrach na'ch bod yn gorfod aros tan ddiwedd y flwyddyn. Mae hefyd yn sicrhau bod gennym y manylion cywir a chyfredol ar eich cyfer.

## Pwy yw darparwr fy nghwrs?

Mae gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol 10 o ddarparwyr ledled Cymru sy'n darparu Cyrsiau Cymraeg. Y darparwyr yw:

- Dysgu Cymraeg Ceredigion-Powys-Sir Gâr
- Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin
- Dysgu Cymraeg Caerdydd
- Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain
- Dysgu Cymraeg Gwent
- Dysgu Cymraeg Sir Benfro
- Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe
- Dysgu Cymraeg Morgannwg
- Dysgu Cymraeg Y Fro
- Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn

Os ydych chi'n ansicr pwy yw eich darparwr, gofynnwch i'ch tiwtor.

## Beth yw fy Rhif Cofrestru?

Efallai y bydd eich darparwr yn dyrannu Rhif Dysgwr neu Fyfyriwr i chi pan fyddwch yn cofrestru. Gofynnwch i'ch tiwtor neu'ch darparwr am fanylion.

## Beth yw MALlC? A oes angen i mi ateb y cwestiwn hwn?

MALlC yw Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae'n system rancio a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru i gydnabod ardaloedd o amddifadedd yng Nghymru.

Nid oes angen i chi ateb y cwestiwn hwn ar y ffurflen hawlio gan y bydd y Swyddog Cyllid yn gwirio eich ffurflen yn erbyn eich cod post wrth brosesu'r hawliad.

## Pam y mae'n rhaid i mi lenwi'r adran er mwyn cadarnhau "y basai’n anodd cael mynediad i astudiaethau heb gymorth gan y Gronfa achos fod ystyriaethau ariannol yn rhwystr, e.e. dych chi ar incwm isel.”?

Darperir y gronfa hon gan Lywodraeth Cymru yn benodol ar gyfer y dysgwyr hynny lle gallai mynediad i addysg gael ei atal gan ystyriaethau ariannol, neu lle gall y dysgwr, am ba reswm bynnag, gan gynnwys anabledd corfforol neu anabledd arall, fod yn wynebu anawsterau ariannol.

Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu bod y gronfa hon i gael ei defnyddio ar gyfer y dysgwyr hynny a fyddai'n annhebygol o fynychu'r gwersi heb rywfaint o gymorth ariannol.

Ni fydd eich hawliad yn cael ei ystyried os byddwch yn gadael yr adran hon yn wag, neu'n dweud nad yw'r datganiad yn wir o'ch rhan chi.

## Pa dystiolaeth y mae arnaf ei hangen?

Mae'r polisi yn nodi bod yn rhaid darparu'r dystiolaeth ganlynol er mwyn cyflwyno hawliad:

- Gofal plant
    - Derbynneb gan warchodwr plant cofrestredig yn nodi dyddiadau gofal
        - Nodyn, mae angen i’r gwarchodwr fod wedi cofrestru gyda Arolygaeth Gofal Cymru, a dylai’r rhif cofrestru fod ar yr anfoneb/dderbynneb
    - Manylion am ddyddiadau y gwersi/sesiynau a fynychwyd

- Ffi Arholiad
    - Derbynneb gan eich darparwr yn cadarnhau eich bod wedi talu (gan gynnwys y swm)

- Adnoddau
    - Derbynebau sy'n dangos manylion yr eitemau a'r swm a dalwyd

- Costau Teithio – Milltiroedd
    - Ffurflen deithio wedi'i llenwi gyda dyddiadau'r teithiau i wersi, manylion y teithiau a'r milltiroedd

- Costau Teithio – Bws/Trên
    - Copi o'r tocynnau (neu'r tocynnau gwreiddiol), gyda symiau a dyddiadau sy'n cyfateb i'r gwersi a fynychwyd

- Costau Parcio
    - Copi o'r tocynnau parcio (neu'r tocynnau gwreiddiol), gyda'r dyddiadau a'r symiau

- Anabledd
    - Llythyr swyddogol sy'n darparu tystiolaeth

## Nid oes gennyf unrhyw dderbynebau. Beth y dylwn ei wneud?
Yn anffodus, ni allwn brosesu unrhyw ad-daliadau heb dderbynebau.

Os ydych wedi talu i'ch darparwr a heb gael derbynneb eto, gallwch ofyn iddo anfon neges e-bost yn cadarnhau'r taliad. Rhaid i'r cadarnhad hwn ddod trwy e-bost gwaith eich darparwr, sy'n cynnwys ei fanylion (megis enw a swydd), yn ogystal â'r swm.

Nid oes arnoch angen unrhyw dderbynebau os ydych yn hawlio am y milltiroedd a deithir mewn car.

## A oes yna uchafswm y gallaf ei hawlio?
Oes. Mae'r polisi'n pennu'r uchafswm y gallwch ei hawlio ar gyfer eitemau unigol. Ni roddir ystyriaeth i unrhyw symiau sy'n uwch na'r symiau uchaf yn y polisi.

Mae'r symiau uchaf y gellir eu hawlio fel a ganlyn:

- Gofal plant
  - Hyd at 3.5 awr ar £5 yr awr (£17.50) fesul plentyn ar gyfer pob gwers/sesiwn

- Ffi Arholiad
  - Lefel Mynediad: Hyd at £20
  - Lefel Sylfaen: Hyd at £22
  - Lefel Ganolradd: Hyd at £24
  - Lefel Uwch: Hyd at £32

- Adnoddau
  - Hyd at £200 mewn blwyddyn academaidd

- Costau Teithio – Milltiroedd
  - Hyd at 60 milltir y wers x £0.25 y filltir (£15 y daith)

- Costau Teithio – Bws / Trên
  - £15 y daith

- Costau Parcio
  - £5 y wers/sesiwn

- Anabledd
  - £10 y wers/sesiwn

## A allaf wneud cais am gostau teithio ymlaen llaw?
Na allwch. Dylech hawlio costau teithio dim ond ar gyfer y gwersi yr ydych yn eu mynychu, felly ni fyddwch yn gallu gwarantu hyn ar ddechrau pob tymor. Gall amgylchiadau newid, sy'n golygu bod nifer y gwersi yr ydych yn eu mynychu yn llai na'r disgwyl. Gofynnwn i'ch darparwr gadarnhau'r presenoldeb yn y dosbarth, felly mae'n hanfodol bod y nifer cywir o wersi a fynychir yn cael ei nodi.

## I bwy y dylwn ofyn am gyngor ar gyfer llenwi'r ffurflen?

Gallwch ofyn i'ch tiwtor neu'ch darparwr, neu gallwch gysylltu â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol drwy e-bostio cyllid@dysgucymraeg.cymru.

## Pwy sy'n ariannu hyn?

Darperir y gronfa hon i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gan Lywodraeth Cymru. Dyrennir swm penodol o arian i'r Ganolfan Genedlaethol, i'w ddefnyddio yn unig ar gyfer y Gronfa Ariannol Wrth Gefn i Ddysgwyr.

## Unrhyw gwestiynau eraill?

Os nad ydych wedi dod o hyd i'r ateb i'ch cwestiwn yma, gofynnwch i'ch tiwtor neu ddarparwr, neu gallwch gysylltu â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol drwy e-bostio cyllid@dysgucymraeg.cymru.